**Beirniadaeth Cystadleuaeth 356**

**Rhyddiaith Bl.9 – Tegwch**

**Beirniad: Marlyn Samuel**

Pleser o'r mwyaf oedd cael beirniadu'r gystadleuaeth hon eleni. Diolch i'r 34 am eu hymdrechion, mwynheais yn fawr ddarllen pob un ohonynt. Testun y gystadleuaeth oedd Tegwch ac roedd y rhan fwyaf o'r awduron wedi ysgrifennu ynglŷn ag annhegwch rhyw sefyllfa neu'i gilydd. Ysgrifennodd sawl un am ryfel, annhegwch yn y gweithle neu am yr annhegwch sy'n bodoli yn ein byd ni heddiw.

Roeddwn i yn chwilio am wreiddioldeb, dychymyg a ffresni yn y sgwennu, ac yn wir ni chefais fy siomi. Mae pob un o'r cystadleuwyr i'w llongyfarch ac rwy'n erfyn arnynt i gyd i barhau i ysgrifennu, mae addewid pendant ym mhob un ymgais.

Dyma ychydig o sylwadau ar bob un yn nhrefn eu darllen.

*<u>Batman</u>*

Stori ynglŷn ag annhegwch yn y gweithle ydi ymgais Batman . Mae Nel sydd wedi colli ei swydd yn cael cynnig swydd arall gan ei chyn fos fel cynorthwyydd iddo. Ei fwriad ydi defnyddio syniadau Nel ac yna cymryd y clod ei hun. Ond gwrthoda Nel y cynnig ac yn y pendraw mae hi'n sefydlu cwmni llwyddiannus ei hun. Dyma syniad digon diddorol ac wedi ei gyflwyno'n ddifyr.

*<u>Betti</u>*

Chwaer sy'n cael ei ffafrio'n fwy na'r chwaer arall ydi testun stori Betti. Mae Beti un diwrnod yn penderfynu rhedeg i ffwrdd oherwydd yr annhegwch. Mae yma addewid am stori ddifyr iawn yma ond efallai bod angen mwy gig ar yr asgwrn ac angen esbonio fwy o'r cefndir. Pam roedd y rhieni'n trin Moli'n wahanol er enghraifft? Mae'r stori hefyd yn gorffen braidd yn swta ac mae lle i ddatblygu mwy arni ond mwynheais y stori'n fawr.

*<u>Cae Ysgawen</u>*

Cofnod ar ffurf dyddiadur o fywyd merch yn cael ei chwalu oherwydd rhyfel a gawn ni gan Cae Ysgawen, Gwelwn fel mae'r ferch fesul tipyn yn colli popeth bron. Mae'n hiraethu am ei hysgol, ffrindiau, ei chartref a'i rheini. Roedd y disgrifiad o orfod cerdded i'r gwersyll diogelwch a phothelli poenus yn chwyddo ei thraed yn effeithiol a thrawiadol iawn a hefyd y disgrifiad byw o'r gwersyll. Llwyddodd Cae Ysgawen i gyfleu anobaith a sefyllfa'r storïwr yn drawiadol iawn.

*Blodyn Tatws*

Pwnc dadleuol iawn mae Blodyn Tatws yn ei drafod yn ei stori, sef gwahardd ffonau symudol yn yr ysgol. Pan mae'r Pennaeth yn penderfynu eu gwahardd mae'r ysgol i gyd yn gwrthryfela . Mae'r stori'n gorffen gyda chyfaddawd a'r Pennaeth yn penderfynu caniatáu defnyddio ffonau amser egwyl ac amser cinio'n unig. Cyflwynodd yr awdur stori syml ond digon effeithiol.

*Cai*

A ninnau yn oes y cyfryngau cymdeithasol hoffais syniad stori Cai yn fawr. Mae Eryl wedi ysgrifennu ar dudalen cyfryngau cymdeithasol ysgol lle nad ydi o'n ddisgybl ynddi er mwyn dadlennu gwybodaeth ynglŷn â disgybl arall, Heulwen, sydd wedi ei drin mor annheg. Gwna hyn dros dri diwrnod gan adrodd beth ddigwyddodd pan aeth o i wersyll haf a'r annhegwch y profodd o yno. Ar ddiwedd y tri darn, gwelwn y nifer o bobl sydd wedi darllen yr hyn mae o wedi'i ysgrifennu a faint sydd wedi ei hoffi neu ddim wedi hoffi'r cynnwys. Mae Cai i'w longyfarch yn fawr am ei wreiddioldeb. Yn anffodus roedd ambell i wall gramadegol yn amharu ar y gwaith.

*Ceri Grififths*

Stori fach am efeilliaid Emily a Megan a gawn gan Ceri Griffiths, Mae un yn awyddus i fod yn geffyl blaen ac felly ddim yn rhoi cyfle teg a chyfartal i'w efaill. Ond mae Emily yn sylweddoli ei chamgymeriad ac yn ymddiheuro. Cafwyd diweddglo hyfryd i'r stori.

*Chwyrligwgan*

Mae Chwyrligwgan yn effeithiol iawn yn defnyddio'r ddelwedd o dŷ blêr i'r stad a chyflwr ein i'n byd ni heddiw. Hoffais y gymhariaeth yma'n fawr ac mae Chwyrligwgan i'w chanmol am ei gwreiddioldeb. Cefais gryn foddhad yn darllen y gwaith hwn.

*Clychau'r Gog*

Nodyn byr sydd yn rhan o ddyddiadur gyflwynodd Clychau'r Gog i'r gystadleuaeth. Mae'r sawl sy'n sgwennu'r dyddiadur mewn hunllef o orfod byw ynghanol rhyfel yn ei gwlad. O ddatblygu'r dyddiadur ymhellach mae addewid pendant yma. Mwy plîs.

*Dant y Llew*

Hoffais ymgais Dant y Llew yn fawr iawn o'r frawddeg agoriadol. Llythyr Eleri at ei Mam a gawn ni yma. Mae hi'n gorfod ysgrifennu traethawd erbyn y diwrnod canlynol ar y testun - Beth yw tegwch i mi? Ond does gan Eleri ddim syniad beth i'w sgwennu ac yn y llythyr mae hi'n cwyno am ei hathrawes, yr ysgol ac ati. Dyma ddarn bywiog sydd wedi ei sgwennu'n rhwydd ac yn llawn ffresni a hiwmor . Disgrifir yr ysgol fel "canolfan casáu plant", ac mae Eleri'n cael ei hamgylchynu gan "genod sy'n dilyn tiwtorial fake tan Donald Trump". Gwych! Braf oedd darllen darn o ryddiaith oedd yn cynnwys hiwmor. Roedd yr ergyd ar y diwedd pryd y dadlennir bod ei mam wedi marw yn hynod o deimladwy ac yn annisgwyl. Yn sicr mae gan Dant y Llew ddawn ysgrifennu stori sy'n aros yn y cof.

*Dewin Myddin*

Gellid dweud bod y darn yma o ryddiaith bron fel araith neu ddadl i gefnogi tegwch i'r iaith Gymraeg. Sonia'r storïwr fel y daeth yn yr ysgol yn ymwybodol un diwrnod o'r diffyg tegwch i'r iaith. Dywed hefyd nad ydym ni chwaith yn gwerthfawrogi 'n llawn y cyfleoedd sydd gennym ni heddiw diolch i frwydro ymgyrchwyr, gwleidyddion, llenorion ag ati. Cyflwynodd Dewin Myrddin bwyntiau trawiadol a chadarn ac mae i'w ganmol yn fawr am hynny.

*Doti drwg*

Dyma syniad gwreiddiol ynglŷn â pheryglon deallusrwydd artiffisial. Mae Pennaeth newydd yr ysgol yn cyflwyno system deallusrwydd artiffisial i wella trefn a disgyblaeth ond gyda chanlyniadau echrydus ar y disgyblion. Mae'r stori'n cydio o'r dechrau un gyda'r frawddeg agoriadol; "Llygaid llwydaidd, wynebau gwag, cyrff yn gorymdeithio fel robotiaid.' Mae fel stori ffug wyddonais a mwynheais ddarllen y gwaith yn fawr iawn. Yn sicr mae gan Doti drwg y ddawn i sgwennu stori.

*EIRA* stori Tegwch?

Yr annhegwch o foddi Tryweryn a geir gan EIRA. Mae'r stori' digwydd dros gyfnod o bedair blynedd gan gychwyn yn 1962, cyn boddi'r cwm pryd mae Neli 'n gweld llwynoges fach a'i bwydo. Mae'n enwi'r llwynog yn Eira. Symuda'r stori yn ei blaen wedyn i 1965 ac mae Neli

erbyn hyn yn byw yng nghanol tref Bala ac fe gawn hanes diwrnod agor yr argae. Gorffenna'r stori yn 1966 pan mae Neli a'i mam yn mynd am dro at Lyn Celyn ac yn gweld y llwynoges unwaith eto gyda'i dau lwynog bach. Dyma stori deimladwy a hyfryd am gyfnod cythryblus yn ein hanes ni drwy lygaid plentyn.

*Eira* stori Newidiais di fy mywyd

Hoffais y syniad yn y stori hon bod un weithred fach a phenderfyniad merch ym mlwyddyn saith wedi gallu helpu pobol eraill. Mae Alys ar ôl gwylio eitem ar y newyddion ynglŷn â'r ffoaduriaid sydd heb gartrefi, teulu na gwlad, yn penderfynu casglu arian i'w helpu. Drwy gymorth yr ysgol mae hi'n llwyddo i wneud hyn hyd y nes ei bod hi yn mlwyddyn13. Ceir diweddglo hyfryd i'r stori pan mae Alys, ar ei diwrnod olaf yn yr ysgol, yn cyfarfod Amira, ffoadur sydd wedi symud i Gymru i fyw, sydd mor ddiolchgar i Alys am newid ei bywyd .

*Elin Fflur*

Mae Elin Fflur wedi ysgrifennu ymson diddorol iawn am ferch mewn cadair olwyn sy'n sôn am ei diwrnod cyntaf yn yr ysgol uwchradd a sut mae hi'n teimlo gorfod byw bywyd mewn ffordd wahanol i bawb arall. Llwyddodd i gyfleu'r teimlad o rwystredigaeth a'r annhegwch mae hi'n ei deimlo yn hynod o effeithiol a sensitif iawn.

*Ffion Jones*

Rhaid canmol Ffion am yr iaith gywir a choeth sydd yr ymson yma sy'n trafod beth ydi tegwch . Mae'r gymhariaeth o ddisgrifio tegwch fel clorian yn effeithiol iawn, " ar un ochr fy nymuniadau i, ar yr ochr arall dy hawliau di. Pan fydd y glorian yn wastad, rwy'n teimlo heddwch." Cyflwynir pwyntiau teg a chryf iawn yn y gwaith ac mae Ffion i'w llongyfarch am hynny.

*Foxglove*

Cyflwynodd Foxglove stori rymus iawn. Daw merch ysgol ifanc adref o'r ysgol ar ôl iddi gael galwad ffôn gan gymydog sy'n poeni am gyflwr iechyd meddwl ei thad. Mae'r tad sydd ddim yn ei iawn bwyll yn ymosod ar y ferch ac wrth iddi geisio achub ei hun mae'r ferch yn ei drywanu â chyllell a'i ladd. Mae yma addewid pendant am stori arbennig yma ond byddai'r stori wedi elwa ymhellach o gael mwy o gig eto ar y stori. Er enghraifft, cynnwys pennod rhwng y ferch a'i mam ac ymateb y fam i'r hyn sydd wedi digwydd. Hefyd yn anffodus mae'r gystrawen yn chwithig ar adegau a'r gwallau gramadegol yn amharu ar y gwaith. Ond plîs dalier ati i sgwennu Foxglove!

*Gareth Bale*

Dyma stori deimladwy am bwnc hynod o drist sef stori Ieuan Jones sy'n cael y newyddion mai dim ond blwyddyn sydd ganddo i fyw. Er ei brognosis torcalonnus mae Ieuan yn penderfynu dechrau byw pob diwrnod fel petai'n rhodd . Mae'n ymweld â hen ffrindiau, mae'n dychwelyd i'w hen ardal ac mae'n darganfod heddwch a llonyddwch meddwl. Llwyddodd Gareth Bale i gyfleu sefyllfa a theimladau Ieuan mewn ffordd gynnil a thrawiadol.

John y Crwban

Gŵr yn cael bai ar gam am ladd ei wraig a'i fab bychan ac yn cael ei garcharu ydi ymgais John y Crwban. Dyma'r darn hiraf a gyflwynwyd yn y gystadleuaeth ac fe geir brawddegau hyfryd yn y gwaith . Er enghraifft: '"Gorweddodd Paul mewn pwll o gwrw yng nghornel tafarn yr Olwyn Finiog. Poteli a mygiau gwag yn ei amgylchynu fel cerrig Eisteddfod,". Yn anffodus, fel roedd y stori'n mynd yn ei blaen teimlais fod yna ôl brys ar y gwaith. Wedi dweud hynny gobeithiaf yn fawr y cawn ddarllen mwy o waith creadigol gan John y Crwban yn y dyfodol.

*Kevin*

Hanes Kevin sydd wedi cael dirwy ar gam am yrru'n gyflym a gawn ni gan Kevin. Mae'n brwydo'r achos yn y llys ac yn llwyddo i gael cyfiawnder. Mae'r awdur wedi llwyddo i gyfleu stori syml ond yn ddigon effeithiol

*Lili Wen fach*

Ysgrifenna Lili Wen fach ynglŷn â'r golled o golli ei mam i ganser a'r annhegwch mae hi'n ei deimlo ynglŷn â hyn. Ymdrinnir â'r pwnc yn sensitif ac yn deimladwy iawn ac mae rhywun yn gallu cydymdeimlo efo'r awdur yn ei cholled.

*Llais Afon Gwy*

Darn ffeithiol, erthygl a fyddai'n addas ar gyfer papur newydd neu bapur bro efallai, a geir gan Llais Afon Gwy. Cyflwynir nifer o wybodaeth ddifyr a diddorol ynglŷn â phrosiect Theatr yn Llanfair ym Muallt ac mae Llais Afon Gwy i'w longyfarch am hynny.

*Lleucu Haf*

Stori gyda diweddglo positif ynglŷn ag annhegwch yn y gweithle ydi testun stori Lleucu Haf. Mae Mair yn gweithio i gwmni sy'n creu syniadau sut i wella'r blaned ac yn ymgeisio am ddyrchafiad. Ond mae'r ymgeisydd arall, Jac yn dwyn cyflwyniad Mair ac o ganlyniad yn llwyddiannus. Er iddi wneud cwyn ynglŷn â hyn, mae'r Pennaeth yn ei anwybyddu gan ei fod yn amlwg yn ffafrio dynion yn y gweithle. Er yr annhegwch a'r ffafriaeth, mae Mair yn brwydro'n ôl ac yn ennill yr achos llys yn erbyn y cwmni. Dyma stori ddigon difyr.

*Martin*

Stori syml ynglŷn â sut y gall pawb wneud eu rhan i gael tegwch i bawb o bob lliw a llun a geir gan Martin. Yn anffodus, braidd yn fyr ydi'r gwaith ac mae lle i ddatblygu mwy ar y stori.

*Megan*

Cafwyd stori hyfryd gan Megan am Elin sy'n colli breichled hud sy'n ei galluogi hi i sefyll drosti hi eu hun a bod yn ddewr pan mae yna sefyllfa anodd yn codi. Ond un diwrnod mae hi'n colli'r freichled ond yna sylweddola na ydi hi angen y freichled i fod yn ddewr . Erbyn deall roedd y dewrder wedi bod ganddi drwy'r amser. Mwynheais ddarllen stori Elin a'r freichled yn fawr.

*Megan*

Cyflwynodd Megan ddarn byr yn sôn am ddwy ffrind yn cymodi ar ôl ffrae. Cafwyd brawddegau hyfryd yn y gwaith fel , Geiriau poenus yn atsain yn fy meddwl, geiriau sy'n fy nharo i fel cleddyf.' Hefyd y frawddeg, "Ei phersawr yn gae o flodau'r gwanwyn.' Trueni na fyddai Megan wedi datblygu'r gwaith ymhellach gan fod yna addewid pendant yma.

*Merch y Fferm*

Cafwyd  dechrau addawol iawn gan Merch y Fferm. Mae Mabli'n darganfod llyfr mawr glas, sef Llyfr y Gwyntiau sy'n dangos gwirioneddau am degwch.   Yn sicr mae lle i ddatblygu'r syniad yma ymhellach.  Hoffais y syniad yn fawr. Gresyn ei fod mor fyr. Mwy plîs!

*RaffMaff*

Atgofion plentyndod am ei Nain sydd bellach gyda dementia ydi testun y gwaith yma.  Darn hynod o bersonol, annwyl a didwyll. Cafwyd diweddglo effeithiol  iawn efo'r frawddeg . " Hi gychwynnodd y stori, fy nhro i yw nawr i gadw ei stori hi'n fyw." Dyma ddarn teimladwy a chynnil gydag ysgrifennu sensitif a graenus.  Yn anffodus,  braidd yn fyr oedd y gwaith ac roedd lle  i ddatblygu a chynnwys mwy o atgofion efallai.

*Rwdlan Fach*

Mae Rwdlan Fach wedi llwyddo i bortreadu person di gartref yn cysgu ar y stryd yn gredadwy ac yn effeithiol iawn.  Mae hi'n sôn am y teimlad o ofn, methu cysgu, poen meddwl ag ati'n  gredadwy iawn.  Hoffais y frawddeg  : "Cysgod yw tlodi yn dilyn bob cam o'ch bywyd." Dalier ati i sgwennu Rwdlan fach.

*Sgonsan*

Mae Sgonsan yn mynd a ni yn ôl  i ddiwedd Awst 1939 i ŵyl fwyd yn Windemere lle mae Rene  Willems sy'n wreiddiol o Wlad Belg wedi ymgartrefu ers y Rhyfel mawr.  Ond efo'r ail Ryfel Byd yn torri allan mae Renee yn cael ei atgoffa o'i blentyndod cythryblus  unwaith eto. Mae'r stori'n symud yn ei blaen saith mlynedd ac mae Rene erbyn hyn wedi symud yn ei ôl i fyw yng ngwlad Belg. Braidd yn bytiog ydi'r gwaith yn ei ffurf bresennol, ond o weithio ar y stori a'i datblygu ymhellach mae potensial am stori rymus iawn yma.

*Siarc*

Ar ffurf dyddiadur mae Siarc yn cofnodi  ei theimladau  a'i phrofiad o fod efo'i merch fach yn yr ysbyty. Mae Lleucu  ei merch tair oed yn cael  triniaeth am Leukaemia yn yr ysbyty. Llwyddodd Siarc  i greu darn hynod o  sensitif a theimladwy iawn a chefais gryn foddhad yn ei ddarllen.

*<u>Siwgr</u>*

Dyddiadur a gyflwynwyd gan Siwgr hefyd.   Dyddiadur merch yn dechrau mewn ysgol newydd. Hi ydi'r unig ferch ddu yn yr ysgol ac mae hi'n cael amser anodd yno oherwydd lliw ei chroen.  Ar ei ffordd  adref  mae hi'n cyfarfod Jini ac mae hithau wedi bod yn cael amser anodd yn yr ysgol hefyd. Mae Siwgr yn gallu cydymdeimlo ac uniaethu  efo unigrwydd Jini a daw'r ddwy'n ffrindiau  a gorffenna'r gwaith yn obeithiol.  Ceir  brawddegau cofiadwy ac arbennig iawn yma, er enghraifft, " Dydi lliw fy nghroen ddim yn adrodd fy stori, dim ond lliw ar gynfas fy mywyd yw e."  Hefyd y llinell  "Tegwch yw'r seren a all oleuo noson  dywyll". Dalier ati i ysgrifennu Siwgr.

*<u>Y Cadet.</u>*

Annhegwch athro yn  darganfod bod athro arall yn yr un ysgol yn cael mwy o gyflog nag o ydi cynnwys gwaith Y Cadét.    Darganfyddir bod athro'n  derbyn mwy o gyflog oherwydd ei fod o'n dysgu Saesneg a bod Pennaeth yr ysgol o'r farn bod Saesneg yn bwnc pwysicach na'r Gymraeg.   O  ddeall hyn mae'r adran Gymraeg yn yr ysgol  yn protestio'n chwyrn yn erbyn hyn ac ar y diwedd mae'r Pennaeth yn  syrthio ar ei fai  ei fod i wedi gwneud camgymeriad mawr ac  felly'n talu'r un cyflog i'r athrawon i gyd.  Stori ddigon difyr.

*<u>Cadi Davies</u>*

Trafodaeth ar y pwnc tegwch gyflwynodd Cadi Davies.  Prif bwynt ei thrafodaeth ydi pam bod pobl yn hiliol a ddim yn trin eu cyd ddyn yn gyfartal.  Cyflwynodd bwyntiau cryf ac aeddfed ac mae Cadi i'w llongyfarch yn fawr am hynny.

*<u>C.G</u>*

Hanes Alaw a Celyn, dwy ferch hollol wahanol o ran personoliaethau a gyflwynodd CG a sut y daeth y ddwy'n ffrindiau. Llwyddodd yr awdur i bortreadu'r gwahaniaethau rhwng y ddwy'n effeithiol a llwyddiannus iawn.  Dyma stori gyda diweddglo hyfryd a mwynheais ei darllen yn fawr.

Mae gweithiau *Chwyrligwgan, Siarc, John y Crwban, Megan* (stori'r Freichled Hud) ac *Eira* ( stori Boddi Tryweryn) i gyd yn dod yn agos i'r brig.

Ond wedi  ystyried yr holl ddeunydd a'u hail ddarllen, mae'r wobr gyntaf yn ddi os yn mynd i *Dant y Llew*,  yr ail wobr i *Doti drwg* a'r drydedd wobr i *RaffMaff.*  Llongyfarchiadau mawr i bawb a diolch am gael darllen eich gwaith.